Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Cartrefi Elusen Jah Jireh (Cymru)**

**Cartref Gofal Jah Jireh**
**Llwydcoed**
**Aberdâr**
**CF44 0LX**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

25/07/2023

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun*

# Cartrefi Elusen Jah Jireh (Cymru)

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Cartrefi Elusen Jah Jireh |
| Lleoedd cofrestredig | 51 |
| Iaith y gwasanaeth | Saesneg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 9 Mawrth 2023 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac nid yw'n gwneud ymdrech sylweddol i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

## Crynodeb


Mae Jah Jireh yn wasanaeth seiliedig ar ffydd, sy'n cynnig cymorth i bobl sy'n rhan o'r gymuned Tystion Jehofa.

Dywedodd y bobl eu bod yn fodlon ar y gofal a'r cymorth y maent yn eu cael. Mae tîm o staff gofal sefydledig yn deall anghenion y bobl. Mae'r staff yn rhyngweithio â'r bobl mewn modd caredig a pharchus. Mae gweithgareddau ar gael ac mae gan y bobl bethau i edrych ymlaen atynt. Mae cynlluniau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac asesiadau risg ar waith. Caiff adolygiadau eu cwblhau'n rheolaidd. Mae'r bobl yn cael meddyginiaeth fel y'i rhagnodwyd a chaiff anghenion maeth eu deall a'u diwallu.

Mae'r amgylchedd yn groesawgar, yn fawr ac yn lân. Mae'r ystafelloedd gwely wedi'u personoli. Mae'r lefelau staffio yn ddigonol er mwyn sicrhau y caiff anghenion unigol eu diwallu yn amserol. Mae'r staff yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan y tîm rheoli ac maent yn mwynhau gweithio yn y gwasanaeth. Mae digon o bolisïau ar waith. Mae gwiriadau cyn cyflogi yn sicrhau bod y staff yn addas i weithio gyda phobl agored i niwed. Caiff hyfforddiant a sesiynau goruchwylio eu cynnig i'r holl staff yn barhaus. Mae'r cyfarpar a'r cyfleusterau yn cael eu cynnal a'u cadw'n briodol. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth yn rheolaidd i adolygu profiadau'r staff a'r bobl sy'n byw yno.

## Llesiant

Gwrandewir ar y bobl a gallant ddylanwadu ar y gofal y maent yn ei gael. Mae'r cynlluniau'n cynnwys gwybodaeth bersonol am gefndiroedd cymdeithasol, dewisiadau o ran gofal ac arferion y bobl. Gall y bobl bersonoli eu hystafelloedd gwely fel y dymunant a gallant ddewis sut maent am dreulio eu diwrnod ac ym mhle. Rhoddir dewis o opsiynau bwyd i'r bobl, a gellir bwyta prydau yn yr ystafell fwyta, y lolfa, neu ystafelloedd y bobl fel y mynnant. Mae cyfleoedd i gymryd rhan mewn amrywiaeth eang o weithgareddau. Mae'r trefniadau ymweld ar gyfer teuluoedd a ffrindiau yn hyblyg. Mae'r tîm rheoli a'r Unigolyn Cyfrifol yn casglu adborth yn rheolaidd i sicrhau bod y gofal a ddarperir yn bodloni disgwyliadau.

Mae'r gofal a ddarperir o safon dda. Mae prosesau ar waith ar gyfer asesu, monitro ac adolygu anghenion gofal a chymorth y bobl. Dywedodd y bobl wrthym fod y gofal a ddarperir o safon dda. Mae'r meddyginiaethau yn ddiogel a chânt eu rheoli'n dda. Mae'r gwasanaeth yn cysylltu â gweithwyr iechyd proffesiynol allanol mewn modd amserol. Mae anghenion maeth y bobl yn cael eu hystyried. Mae'r bobl yn cael cymorth i gynnal perthnasoedd pwysig a meithrin cyfeillgarwch newydd. Mae cyfleoedd i fwynhau'r gweithgareddau yn y gwasanaeth ac yn y gymuned leol a dywedodd y bobl wrthym eu bod yn gallu cadw'n brysur mewn modd cadarnhaol. Mae'r gwasanaeth yn ystyried ac yn cefnogi anghenion ysbrydol/ffydd y bobl.

Mae'r bobl yn byw mewn amgylchedd sy'n gwella eu llesiant. Mae'r amgylchedd yn cael ei gynnal a'i gadw ac yn cael gwiriadau diogelwch yn rheolaidd. Mae gweithdrefnau rheoli heintiau da ar waith ac mae'r cartref yn lân ac yn daclus. Mae amrywiaeth o ardaloedd cymunedol ar gael i'r bobl. Mae cymhorthion symudedd addas ar gael i roi cymorth lle bo angen. Mae ardaloedd cymunedol, coridorau ac ystafelloedd gwely unigol wedi'u haddurno'n ddeniadol. Mae lle pwrpasol i'r bobl weddïo yn yr adeilad.

Mae systemau ar waith er mwyn helpu i ddiogelu'r bobl rhag camdriniaeth a niwed. Mae'r bobl yn ddiogel rhan ymwelwyr heb awdurdod yn dod i mewn i'r adeilad. Mae gwiriadau cymeriad ac addasrwydd i sicrhau bod y staff yn addas ar gyfer eu rôl. Dywedodd y staff gofal wrthym eu bod yn cael hyfforddiant a sesiynau goruchwylio parhaus. Mae'r staff gofal yn deall pwysigrwydd diogelu a rhoi gwybod am bryderon. Mae'r adeilad yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda. Mae ystod o bolisïau cyfredol yn amlinellu ac yn atgyfnerthu arferion gofal cadarnhaol.

## Gofal a Chymorth

Mae gwybodaeth ysgrifenedig ar gyfer pob person. Mae'r cynlluniau personol manwl sydd ar waith yn amlinellu'r gofal a'r cymorth sydd eu hangen ar y bobl. Caiff gwybodaeth am brofiadau bywyd a dewisiadau'r bobl eu cofnodi. Caiff risgiau posibl eu hystyried a'u lleihau cymaint â phosibl. Mae'r gwasanaeth yn cydgysylltu â gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol pan fo angen, a chaiff yr holl apwyntiadau iechyd eu dogfennu. Er y caiff cofnodion dyddiol eu diweddaru i adlewyrchu newidiadau, nid yw'r cynlluniau a welsom bob amser wedi'u diwygio i brofi hyn. Gwnaeth yr Unigolyn Cyfrifol gadarnhau bod y gwasanaeth wrthi'n sefydlu system electronig newydd i wella hyn.

Caiff anghenion maeth eu diwallu. Mae'r bobl yn cael deiet cytbwys a bwydlen amrywiol. Mae gan staff y gegin wybodaeth dda am anghenion deietegol y bobl gan gynnwys unrhyw ofynion arbenigol. Gwelsom y staff yn cynnig dewis o brydau. Yn ystod amser cinio gwelsom awyrgylch pleserus ac ymlaciol gyda'r bobl yn sgwrsio yn eu grwpiau ffrindiau.

Mae'r bobl yn derbyn gofal a chymorth o safon dda.  Mae'r bobl yn cymryd rhan mwn amrywiaeth o weithgareddau yn y cartref a'r gymuned leol. Mae'r gweithgareddau yn cynnwys partïon â themâu, sesiynau ymarfer corff, siopa, ymweliadau i atyniadau a pharciau lleol. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn mwynhau astudio ysgrythurau crefyddol a gweddïo. Gwelsom y staff gofal yn ymgysylltu â'r bobl mewn modd caredig a chyfeillgar a gwelsom sawl achos o ryngweithio cadarnhaol rhwng y staff a'r bobl yn ystod yr arolygiad. Dywedodd y bobl wrthym y gofynnir iddynt roi adborth ar y gofal a gânt yn rheolaidd. Mae'r staff gofal yn gyfarwydd ag anghenion ac arferion y bobl ac yn cynnig cymorth yn unol â hynny. Mae clychau galw yn hysbysu'r staff gofal pan fydd angen cymorth, a gwelsom yr ymatebir i'r rhain yn brydlon. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn mwynhau byw yn y gwasanaeth a bod ganddynt gydberthnasau da â'r staff gofal. Mae'r sylwadau yn cynnwys *“It’s a very happy place.”, “We have some very good reliable workers.”, “I feel safe here and so do lots of other people.”, “The staff are nice they look after us.”* ac *“I made the right decision moving here.”.*

Mae'r systemau i reoli meddyginiaethau yn effeithiol. Mae trefniadau diogel ar gyfer storio meddyginiaeth. Caiff yr ystafell feddyginiaeth a thymheredd yr oergell eu dogfennu'n ddyddiol i sicrhau bod y meddyginiaethau yn parhau i fod yn effeithiol. Mae systemau rheoli meddyginiaeth clir ar waith gan gynnwys polisi meddyginiaeth cyfredol. Mae cwblhau archwiliadau meddyginiaeth rheolaidd yn sicrhau bod yr arferion yn parhau'n ddiogel ac yn effeithiol. Mae'r staff sy'n rhoi meddyginiaeth yn cael digon o hyfforddiant. Roedd y Cofnodion Rhoi Meddyginiaeth a welsom wedi'u cwblhau'n briodol heb fylchau na gwallau.

## Yr Amgylchedd

Mae'r bobl yn byw mewn amgylchedd dymunol sy'n cefnogi eu llesiant. Mae'r ystafelloedd gwely wedi'u teilwra at chwaeth y bobl, ac yn cynnwys lluniau ac addurniadau sy'n gwneud i'r amgylchedd deimlo'n gartrefol ac yn gyfarwydd. Mae gan y gwasanaeth amrywiaeth o lolfeydd, lle gall y bobl ddewis treulio eu hamser a gwneud gweithgareddau. Mae sawl coridor yn cynnwys mannau eistedd lle ceir eitemau o ddiddordeb i annog y bobl i hel atgofion. Mae hysbysfyrddau yn dangos teithiau a digwyddiadau o bwys ym mywydau'r bobl. Mae gan y gwasanaeth Neuadd y Deyrnas lle gall y bobl weddïo a chynnal cysylltiad â'r gynulleidfa leol. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn teimlo bod yr amgylchedd yn gyfforddus ac yn ddymunol i fyw ynddo.

Mae gwiriadau a threfniadau cynnal a chadw parhaus yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel. Mae digon o gyfarpar diogelu personol ar waith. Caiff gwybodaeth bersonol y bobl, ynghyd â chofnodion personél y cyflogeion, eu storio'n ddiogel, a dim ond aelodau awdurdodedig o'r staff all eu gweld. Mae'r cofnodion a welsom yn dangos bod cyfleustodau a chyfarpar yn cael eu profi'n rheolaidd. Caiff profion diogelwch tân ac ymarferion tân eu cwblhau'n rheolaidd. Mae cynlluniau personol ar gyfer gwagio'r adeilad mewn argyfwng yn darparu canllawiau sy'n nodi sut y dylid symud y bobl mewn argyfwng. Caiff gweithwyr cynnal a chadw eu cyflogi i gynnal gwiriadau iechyd a diogelwch a gweithiau atgyweirio cyffredinol. Caiff sylweddau sy'n beryglus i iechyd eu storio'n ddiogel ac nid oes unrhyw beryglon baglu amlwg. Caiff gwaith atgyweirio'r eiddo ei gwblhau mewn modd amserol. Rhoddwyd sgôr Hylendid Bwyd o 4 i'r gwasanaeth, sy'n golygu bod y safonau hylendid yn dda.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Ar y cyfan, mae systemau effeithiol i gefnogi'r gwaith o redeg y cartref. Roedd y rotas a welsom yn dangos bod niferoedd digonol o staff ar bob shifft i gefnogi'r bobl. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth bob tri mis ac yn cwblhau adroddiadau ar ansawdd y gofal bob chwe mis i nodi unrhyw feysydd datblygu a gwella. Mae polisïau a gweithdrefnau ar waith i roi arweiniad i'r staff ynghylch eu rôl a sut i ddarparu gofal a chymorth o ansawdd da. Mae'r staff y gwnaethom siarad â nhw yn glir ynghylch gweithdrefnau diogelu a chwythu'r chwiban.

Mae'r staff gofal yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi a'u recriwtio'n ddiogel. Mae dewis addas o wiriadau'n cael eu cynnal i gefnogi'r gwaith o benodi staff. Mae'r staff gofal yn gweithio tuag at gofrestru â rheoleiddiwr y gweithlu, Gofal Cymdeithasol Cymru. Mae aelodau newydd o staff yn cwblhau rhaglen sefydlu. Dywedodd y staff gofal wrthym eu bod yn hapus yn eu rôl a'u bod yn cael lefel dda o gymorth gan y tîm rheoli. Mae'r sylwadau yn cynnwys *"It's a nice place to work with good support.", "I love working here.".* Mae'r trosiant staff isel yn galluogi'r bobl i brofi parhad gofal da a datblygu perthnasoedd ymddiriedus a chadarnhaol. Dywedodd un aelod o'r staff wrthym *"People are well looked after here." "The care provided is amazing.".*

Ar y cyfan, mae'r cofnodion hyfforddiant yn dangos bod pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant craidd ac yn cael eu goruchwylio. Cadarnhaodd y staff gofal eu bod yn cael sesiynau goruchwylio rheolaidd, ac mae'r tîm rheoli ar gael i gynnig cyngor ac i drafod unrhyw bryderon. Mae angen i'r trefniadau cofnodi sesiynau goruchwylio ffurfiol wella fel tystiolaeth o'r cymorth a roddir. Mae'r staff gofal yn cwblhau hyfforddiant meddyginiaeth ac asesiadau cymhwysedd cyn rhoi meddyginiaethau. Mae'r staff yn teimlo'n hyderus yn eu rôl ac mae digon o hyfforddiant parhaus ar gael iddynt. Roedd yr arferion gofal a welsom ar y diwrnod yn ddiogel ac yn unol ag arferion da. Soniodd yr Unigolyn Cyfrifol am ei gynllun i wella'r trefniadau cofnodi a goruchwylio hyfforddiant y staff dros y misoedd nesaf.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 15/09/2023